## RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Ddydd Llun, 19 Rhagfyr 2016

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00yp ddydd Iau, 22 Rhagfyr, 2016. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00yp ar ddydd Mawrth, 3 Ionawr, 2017. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Mercher, 4 Ionawr, 2017.

**Presennol**: Y Cynghorwyr R Dew, K P Hughes, A M Jones, H E Jones, Alwyn Rowlands and Ieuan Williams (Cadeirydd)

**Hefyd yn Bresennol**: Y Cynghorwyr Ann Griffith, John Griffith, Trefor Lloyd Hughes, R.Meirion Jones, Alun Mummery, Dylan Rees, Nicola Roberts.

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorydd J A Roberts

(10:00 y.b. hyd at 11:15 y.b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Ddim yn berthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd, 2016.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Ddim yn berthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Ddim yn berthnsaol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaenraglen Waith ddiweddaredig y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod o fis Ionawr i Awst, 2017 fel y'i cyflwynwyd**. |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau ar gyfer cynllunio ymlaen.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18**<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Nodi cynnwys yr adroddiad.**<br>• **Cymeradwyo cynnwys, a'r rhagdybiaethau a'r cynigion ynddo, y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys (yn cynnwys y Dangosyddion Pwyllog a rhai Rheoli Trysorlys ) ar gyfer 2017/18 fel yn Atodiad A i'r adroddiad.**<br>• **Anfon y Datganiad ymlaen i'r Cyngor Sir heb sylw pellach.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cydymffurfio gyda'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Rheoli Trysorlys.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na. Mater i'w ystyried gan y Cyngor Llawn.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Adolygiad Canol Blwyddyn – Rheoli Trysorlys 2016/17**<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Canol Blwyddyn ar Reoli'r Trysorlys 2016/17 a'i anfon ymlaen i'r Cyngor Sir heb sylw pellach.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cydymffurfio gyda'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Rheoli'r Trysorlys.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na. Mater i'w ystyried gan y Cyngor Llawn.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Tai Cyngor - Garejys**<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Cymeradwyo dymchwel 33 bloc o garejys a'r gwariant sy'n gysylltiedig.**<br>• **Dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth Tai i ystyried cael gwared â garejys pan ddyfernir mai hwnnw y'w peth mwyaf addas i'w wneud.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gymeradwyo cael gwared â garejys y Cyngor.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr**<br>Pennaeth y Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd -**<br><br>• **Nodi'r cynnydd ers i'r Pwyllgor Gwaith roi caniatâd i symud ymlaen gydag ymchwiliadau cychwynnol i ddatblygu safleoedd Penhesgyn a Star a cherrig millitir allweddol arfaethedig ar gyfer darparu'r prosiect.**<br>• **Cymeradwyo'r defnydd mewn egwyddor o Orchymyn/ Gorchmynion Prynu Gorfodol er mwyn diogelu'r tir sy'n hanfodol ar gyfer datblygu Llety i Sipsiwn a Theithwyr rhag ofn na fydd Swyddogion yn gallu sicrhau'r safle drwy drafodaethau.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I symud ymlaen i gyflawni'r prosiect ar gyfer Datblygu Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Moderneiddio Ysgolion - Ardal Llangefni**<br>Pennaeth Dysgu |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd awdurdodi'r Swyddogion i symud ymlaen i'r broses ymgynghori ffurfiol neu statudol pan fyddant yn ymgynghori ar Opsiynau A a B fel y'u disgrifir yn yr adroddiad.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I symud ymlaen gyda'r Rhgalen Moderneiddio Ysgolion ym Môn.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Gwaith Gwella i'r Briffordd rhwng C3 yr A55 a Wylfa Newydd ar hyd yr A5 a'r A5025**<br>Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo ) –**<br><br>• **Ar ôl cwblhau'r Cytundeb Indemniad, i wneud a chyflwyno Gorchymyn/Gorchmynion Prynu Gorfodol (GPG) yn unol ag adrannau 239, 240, 246, 250 a 260 o Ddeddf Priffyrdd 1980 a Deddf Caffael Tir 1981 a'r holl bwerau eraill y mae'r Pennaeth Gwasanaeth yn ystyried eu bod yn angenrheidiol mewn perthynas â gwneud a chyflwyno GPG mewn perthynas â'r cyfan neu ran o'r tir a amlinellir mewn coch ar y Cynlluniau GPG yn Atodiad 1 yr adroddiad ac unrhyw dir arall y gellir ystyried ei fod yn angenrheidiol i wneud y gwaith ar yr A5025 gan gynnwys unrhyw gamau lliniaru.**<br>• **Ar ôl cwblhau'r Cytundeb Indemniad, i wneud a chyflwyno unrhyw Orchmynion Ffyrdd Ochr** |

| | |
|---|---|
| | **(GFfO) ac unrhyw orchmynion priffyrdd eraill sy'n angenrheidiol i alluogi cyflawni'r gwaith ar yr A5025.**<br><br>• **Ar ôl cwblhau'r Cytundeb Indemniad, i gymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau y gellir gwneud, cadarnhau a gweithredu'r GPG, unrhyw GFfO ac unrhyw orchmynion priffyrdd eraill, gan gynnwys cyhoeddi a chyflwyno'r holl hysbysiadau, ceisiadau am wybodaeth a datganiadau o resymau, ynghyd â pharatoi a chyflwyno achos y Cyngor mewn unrhyw ymchwiliad cyhoeddus i sicrhau cadarnhau'r GPG a'r GFfO gan yr Ysgrifennydd Gwladol.**<br>• **Ar ôl cael cadarnhad o'r Gorchymyn/Gorchmynion Prynu Gorfodol, i ddefnyddio'r pwerau a roddwyd gan y Gorchymyn Prynu Gorfodol perthnasol i gaffael tir a/neu hawliau trwy gytundeb.**<br>• **Ar ôl cwblhau'r Cytundeb Indemniad, i wneud cytundebau y mae'r Pennaeth Gwasanaeth yn ystyried eu bod yn briodol gyda thirfeddianwyr a phobl eraill sydd â diddordeb yn y tir sy'n destun y Gorchymyn/Gorchmynion Prynu Gorfodol i gaffael tir/hawliau a/neu i sicrhau y tynnir yn ôl wrthwynebiadau i'r GPG a'r GFfO.**<br>• **Ar ôl cwblhau'r Cytundeb Indemniad, i wneud unrhyw daliadau iawndal angenrheidiol (gan gynnwys taliadau interim) naill ai fel y cytunwyd gyda pherchnogion tir neu fel y penderfynir gan Siambr Tiroedd yr Uwch Dribiwnlys mewn perthynas â chaffael buddiannau tir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I symud ymlaen gyda gwaith ar yr A5025 fel rhan o ddatblygiad Wylfa Newydd.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

# EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 Ail-ddatblygu Neuadd y Farchnad**<br>Pennaeth Dysgu a Phennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo argymhelliad yr adroddiad mewn perthynas ag ail ddatblygu Hyb Neuadd y Farchnad, Caergybi.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I symud ymlaen gydag ail ddatblygu Hyb Neuadd y Farchnad, Caergybi.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |